

Digimap for Schools

Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnodau Allweddol 3-4



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llw o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnodau Allweddol 3-4	Mae defnydd o dir trefol yn elfen gyffredin o fanylebau TGAU. Mae symud tŷ yn brofiad cyffredin, felly mae'r gweithgaredd hwn yn berthnasol yn CA3 hefyd.	Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i leoli yng Nghaergrawnt, ond gellir ei addasu ar gyfer lleoliadau eraill ledled Prydain Fawr.

Gwybodaeth	Lefelau closio/dehongli mapiau/mesuriadau a llwybrau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Y defnydd o dir trefol/dehongli mapiau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddarganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 1.11a, 3.14a, 4.10b-c, 4.14a

Gweithgaredd

Mae symud tŷ yn brofiad y mae nifer o fyfyrwyr yn gyfarwydd ag ef, neu wedi gweld rhaglenni teledu amdano. Mae'r gweithgaredd hwn yn eu gosod yn y rôl o geisio bodloni anghenion gwahanol un teulu. Gellir defnyddio'r daflen myfyriwr yn y dosbarth neu ei rhoi fel gwaith cartref.

Efallai y bydd myfyrrwyr yn cael eu gwrthdynnu os oes rhaid iddynt ddewis o nifer fawr o wefannau y gellir eu defnyddio i ategu'r gwaith hwn, felly awgrymir eich bod chi'n darparu rhestr o'r rhai yr hoffech iddyn nhw eu defnyddio.

Cyflwyniad

Mae nifer o ranbarthau gwahanol mewn dinasoedd, y gellir eu hamlygu yn y modelau defnydd o dir comin. Efallai y bydd myfyrrwyr TGAU yn gyfarwydd â modelau Ernest Burgess neu Homer Hoyt.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Delwedd CC o *Wikimedia Commons*: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Burgess_model1.svg

Mynd gam ymhellach

- Crëwch fersiwn leol o'r adnodd hwn, a/neu greu teulu ffug gwahanol a allai fod yn chwilio am eu heiddo perffaith.
- Gallwch awgrymu mai Mr Griffin sy'n gwneud y 'penderfyniad olaf' neu efallai Mrs Griffin, neu'r plant?
- Gallwch ychwanegu manylion ychwanegol at y disgrifiad, fel bod myfyrwyr yn ystyried ble mae'r teulu yn mynd i siopa, ar gyfer adloniant ac ati, a fydd yn eu galluogi nhw i astudio'r ffordd y mae lleoedd ar gyrion dinasoedd, fel Caergrawnt, yn newid wrth i'r defnydd o dir symud yn araf o ddinesig i wledig. Mae'r cwr gwledig-dinesig hwn yn ardal ddiddorol arall i'w hastudio: mae 'ffindiroedd' dinasoedd yn newid yn gyflym.
- Gellir cael mwy o wybodaeth, fel llwybrau bysiau yng Nghaergrawnt, manylion am newidiadau mewn prisiau tai dros amser, lleoliad ysgolion ac eiddo manwerthu, gan ddefnyddio chwiliadau gwe priodol.

Gofynnwch i fyfyrwyr ddychmygu eu bod nhw yn y dyfodol a bod angen iddyn nhw ddod o hyd i eiddo ar rent ar eu cyfer eu hunain yn agos at swydd newydd. Pa feini prawf daearyddol sy'n fwyaf pwysig iddyn nhw a sut mae'n wahanol i anghenion teulu nodweddiadol?

Dolenni ar y we

- Mae gwefannau eiddo fel www.rightmove.co.uk yn ffynhonnell wybodaeth gyfoethog ac yn caniatáu i chi fynd i *Google Street View*.
- Mae dros 3.5 miliwn o luniau ar gael ar <http://schools.geograph.org.uk/>
- Gallwch ddarganfod mwy am y lleoliadau a awgrymir gan ddefnyddio Zoopla www.zoopla.co.uk

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013
Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_uwchradd
f1.0 Awst 2013

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad – Gweithgaredd

Mae'r teulu Griffin yn chwilio am dŷ yng Nghaergrawnt. Mae ganddyn nhw ofynion penodol a ddisgrifir ar y ddalen nesaf. Maen nhw wedi culhau eu chwiliad i 3 lle sydd o fewn eu cyllideb. Maen nhw mewn ardaloedd gwahanol o'r ddinas.

a) 64 Gwydir Street, Cambridge, CB1 2LL
b) 28 Stanesfeld Road, CB5 8NH
c) 10 Lemur Drive, CB1 9XZ

- 1 Mae angen i chi ddod o hyd i'r tri thŷ a'u hamlygu gan ddefnyddio *Digimap for Schools*.
- 2 Darllenwch y disgrifiad o'r teulu Griffin, y gofynion a'r hyn sydd orau gan bob aelod o'r teulu. Gan ddefnyddio'r **wybodaeth ar y map yn unig i ddechrau**, penderfynwch pa dŷ rydych o'r farn a fyddai orau ar gyfer y teulu.

Mae'r pethau i chwilio amdanynt yn cynnwys:

- Agoswydd at leoedd o ddiddordeb i aelodau'r teulu, fel gorsaf reilffordd Caergrawnt a Choleg Chweched Dosbarth Hills Road.
 - Maint plot/gardd y tŷ (gallwch ei fesur).
 - Math o dy; er enghraifft, tŷ teras neu ar wasgar.
 - Lleoedd i gerdded gerllaw.
 - Unrhyw beth a allai wneud y tŷ yn llai dymunol, fel ffyrdd prysur, neu sŵn o eiddo gerllaw.
- 3 Ewch i wefannau eraill, fel *Google Street View*, i edrych ar y tai a'r ardal gerllaw. A yw hyn yn gwneud i chi newid eich meddwl?
 - 4 Byddan nhw'n byw yn y tŷ am gryn dipyn o amser. Pa mor addas fydd y tŷ hwn ar gyfer y teulu Griffin ymhen 5 mlynedd?
 - 5 Defnyddiwch yr **Annotation Tools** (offer Anodi) i amlygu lleoliad eich tŷ dewisol i ddweud pam rydych o'r farn mai hwn yw'r lleoliad gorau ar gyfer y teulu Griffin. Ychwanegwch luniau i ategu eich sylwadau.

Dolenni ar y we

Mae nifer o wefannau ac apiau wedi cael eu cynllunio i helpu pobl ddod o hyd i dŷ eu breuddwydion. Trafodwch gyda'ch athro pa rai y dylech eu defnyddio ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Y Teulu Griffin

Mae Caergrawnt yn lle drud iawn i fyw ynddo, ac mae'n rhaid i'w tŷ newydd gostio llai na £400,000 (bydden nhw'n hoffi gwario llawer yn llai na hyn). Maen nhw eisiau cael pedair ystafell wely, fel y gellir defnyddio un ohonyn nhw fel swyddfa/ystafell sbâr, ond byddai tŷ â thair ystafell wely yn gwneud y tro petai'r ystafelloedd o faint gweddol.

Mae **Mr Griffin** yn gweithio yn Llundain, ac mae'n rhaid iddo ddal y trê'n o orsaf rheilffordd Caergrawnt. Mae'n ceisio bod yn ffit, hefyd, mae'n well ganddo beidio â gyrru i'r orsaf gan y byddai hynny'n costio arian am barcio ac mae eisoes yn talu miloedd o bunnoedd am ei docyn tymor. Gall weithio o adref yn achlysurol.

Mae'n hoffi chwarae golff, a hefyd yn mwynhau mynd â chi'r teulu am dro hirach ar y penwythnos ar hyd llwybrau troed, a gadael iddo redeg mewn parc cyhoeddus. Hoffai fod yn agos at ryw fath o warchodfa natur, neu o fewn cyrraedd lleoedd agored. Mae'n cysgu'n ysgafn, felly byddai'n well ganddo fod mewn cul-de-sac tawel neu ar ffordd arall nad oedd yn rhy brysur.

Mae **Mrs Griffin** yn gweithio i gwmni technoleg gwybodaeth yn un o'r parciau gwyddoniaeth y tu allan i'r dref, ac mae wastad yn gyrru i'r gwaith. Mae hyn yn golygu y gallai fynd ag un o'i phlant, neu'r ddau ohonynt, yn y bore, ond mae angen iddyn nhw fynd adref ar eu pen eu hunain.

Mae'n hoffi gwyllo ffilmiau, ac mae'n mynd i'r sinema gyda ffrindiau a theulu yn aml. Mae ei mam yn byw yn ardal o'r ddinas o'r enw Romsey Town. Byddai'n ddefnyddiol bod yn agos ati gan nad yw ei mam yn gyrru, ac mae angen ei help weithiau os nad yw John yn yr ysgol, neu os nad oes neb ar gael i fynd â'r ci am dro.

Mae'n hoffi tyfu bwyd, a hoffai gael gardd neu randir. Hoffai gael tŷ cymharol newydd hefyd, gan nad oes ganddyn nhw lawer o amser sbâr ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac ailaddurno.

Mae **Sally Griffin** ar fin gadael ysgol uwchradd ac mae wedi cael lle yng Ngholeg Chweched Dosbarth Hills Road, sef coleg llwyddiannus ger canol y ddinas. Hoffai allu beicio yno heb orfod teithio ar hyd gormod o ffordd prysur. Mae ei ffrindiau yn byw mewn ardal o'r enw Newtown yn bennaf.

Mae ganddi swydd ran-amser mewn caffi bach ger Parker's Piece, sef ardal fawr agored i'r de-ddwyrain o ganol y ddinas, ond dim ond pan maen nhw'n brysur maen nhw'n gofyn iddi weithio. Mae mwy o swyddi rhan-amser, a rhai gwell, ar gael yng nghanol y ddinas, ond os bydd yn cymryd gormod o amser a'i fod yn rhy ddrud i gyrraedd yno, ni fydd yn werth chweil.

Mae **John Griffin** yn 10 oed, ac mae ef a Mr Griffin yn cefnogi Cambridge United. Maen nhw'n mynd i bob gêm gartref, felly hoffai fyw rhywle sy'n agos at y maes. Nid oes ots ganddo symud ysgol gynradd gan y byddai'n well ganddo fyw yn agos at ysgol a chael ffrindiau gerllaw. Mae ei ffrind gorau yn byw mewn ardal o'r ddinas o'r enw Newnham Croft. Mae'n hoffi sgrialu a hoffai fod yn agos at barc er mwyn iddo allu cerdded y ci yno ar ôl ysgol. Ei hobi arall yw pysgota.